# GweithdaiAber:

## Yr Ysgol Addysg

**Dod â'n harbenigwyr academaidd at eich dysgwyr**



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Beth yw GweithdaiAber?

**Mae GweithdaiAber yn rhoi cyfle i'ch dysgwyr gael trafod â'n staff academaidd cyfeillgar a chael eu dysgu ganddynt.**

Bydd ein staff yn trafod deunydd safonol yn y pwnc, ac yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mwy am y maes, y nod hefyd yw eu hannog i ystyried mynd ymlaen i astudio Addysg a Phlentyndod yn y dyfodol.

Mae gennym amrywiaeth o ddarlithoedd/gweithdai â gogwydd academaidd iddynt i'w cynnig mewn nifer o wahanol bynciau. Er na ellir gwarantu y bydd pob gweithdy wastad ar gael, mae GweithdaiAber yn hyblyg:

- **Gallwn eu hamrywio o ran eu hyd**
- **Maent yn addas i gynulleidfaoedd bach neu fawr**
- 12-13 **Cyflwynadwy i grŵpiau blwyddyn 12-13**
- **Ar gael dros y we**
- **Ar gael wyneb-yn-wyneb yn yr ysgol neu'r coleg**
- **Ar gael ar gampws Prifysgol Aberystwyth**
- **Ar gael i ddysgwyr heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y pwnc, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb yn y maes. Nid oes rhaid i ddysgwyr fod yn astudio'r Addysg nag Astudiaethau Plentyndod yn yr ysgol neu'r Coleg.**

I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**

# Cyflwyniad i'r Ysgol Addysg

**Mae ein rhaglenni astudio israddedig yn amrywiol o ran yr ystod o bynciau a gynigir. Gall myfyrwyr astudio Addysg, Astudiaethau Plentyndod neu Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar fel pwnc sengl, neu Addysg ar y cyd â phynciau eraill, megis seicoleg, hanes, mathemateg, drama, Saesneg, Cymraeg a mwy.**

Mae hanes hir yr Adran yn tystio i'w dawn dysgu. Mae ganddi draddodiad balch o ysgolheictod ac ymchwil, ac mae hi wedi paratoi cenedlaethau o bobl o bedwar ban byd am yrfaoedd proffesiynol ac am fywyd yn gyffredinol.

Mae ein cwricwlwm a'n modiwlau wedi'u cynllunio i gyd-daro ag anghenion presennol cyflogwyr, y systemau addysg yng Nghymru a Lloegr a'r proffesiynau gofal plant, ac rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu doniau proffesiynol dysgwyr. Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr fynychu lleoliadau mewn ysgolion trwy gydol eu graddau.

Mewn Addysg ac Astudiaethau Plentyndod, caiff ein modiwlau eu diwygio a'u diweddaru'n gyson er mwyn adlewyrchu'r newidiadau diweddar mewn addysg, cwricwlwm, addysgeg a pholisi. Mae hyn yn golygu y gall dysgwyr fod yn sicr bod eu gwybodaeth am y pwnc mor gyfredol â phosibl, a thrwy hynny wella eu cyflogadwyedd.

Mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar, mae gan ddysgwyr gyfle i ymgymryd ag oriau estynedig ar leoliad, a thrwy hynny feithrin eu hymarfer proffesiynol, ynghyd â'u gwybodaeth ddamcaniaethol, gan ddatblygu sgiliau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer y gweithle.

Yn ogystal, gall myfyrwyr astudio dramor yn yr ail flwyddyn yn un o'n prifysgolion partneriaethol mewn mannau fel Ewrop, UDA, Canada, ac Awstralia, ac anogir y myfyrwyr hefyd i gymryd blwyddyn allan ar ôl yr ail flwyddyn ar gyfer blwyddyn mewn gwaith.



# Addysg GweithdaiAber

### Caleidosgop Iaith – Dr Sian Lloyd-Williams and Dr Susan Chapman

CY EN MP Rh

Rydym yn aml yn cymryd iaith yn ganiataol: rydyn ni'n ei defnyddio trwy'r amser ac mae'n golygu'r hyn y mae'n ei ddweud. Onid yw? Mae gweithdy Caleidosgop Iaith yn rhoi cyflwyniad cyflym iawn i ffyrdd o feddwl am iaith. Rydym yn gofyn cwestiynau fel beth yw iaith a sut mae'n dylanwadu ar ein meddyliau. Beth yw effeithiau defnyddio gwahanol fathau o iaith? Sut ydyn ni'n mynegi ein hunaniaeth drwy iaith a sut ydyn ni'n ymateb i hunaniaethau eraill? Felly i grynhoi: beth yw iaith ac iaith pwy ydyw?

### Problem Solvers: Collaborative Learning for Skills Development – Dr Panna Karlinger

EN MP

Gweithdy diddorol ac addasadwy wedi'i gynllunio i feithrin gwaith tîm, creadigrwydd a meddwl beirniadol. Yn addas ar gyfer ystod o grwpiau oedran, gellir cyflwyno'r gweithdy hwn wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan gynnig heriau rhyngweithiol sy'n annog cyfranogwyr i weithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau a datblygu sgiliau allweddol. Trwy gyfrwng gweithgareddau hwyliog sy'n ysgogi'r meddwl, bydd cyfranogwyr yn hogi eu gallu i gydweithio, meddwl yn greadigol, a mynd i'r afael â heriau mewn amgylchedd cefnogol, deinamig. Perffaith ar gyfer datblygu sgiliau datrys problemau mewn modd ymarferol a chyffrous!



**Allwedd:**

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**

## Mirrors, Windows and Sliding Glass Doors': Representation in children's – Dr Susan Chapman

EN MP Rh

Pa mor bwysig yw hi i blant weld eu hunain a'u bywydau yn cael eu cynrychioli yn y llyfrau sydd ar gael iddyn nhw? O lyfrau lluniau i blant megis Look Up gan Nathan Byron a Dapo Adeola i ffenomenau amlgyfrwng megis Heartstopper gan Alice Oseman, mae llyfrau plant a phobl ifainc bellach yn cyflwyno ystod ehangach o gymeriadau a phrofiadau nag yr oeddent ddeng mlynedd yn ôl hyd yn oed. Bydd y sesiwn hon yn ystyried rhai datblygiadau diweddar mewn llyfrau i blant a phobl ifainc gan ganolbwyntio ar gynrychiolaeth grwpiau ymylol ac yn ystyried materion cyhoeddi, mynediad ac ymatebion. Byddwn yn edrych ar ddetholiadau o destunau diweddar ond anogir cyfranogwyr i ddod â'u henghreifftiau eu hunain i'w trafod.

## Should We Teach Maths in Schools? – Dr Rosemary Cann and Dr Panna Karlinger

EN MP Rh

Cyfle i ystyried y cwestiwn, A ddylem ni ddysgu mathemateg mewn ysgolion?, yn y gweithdy hwn sy'n ysgogi'r meddwl a gynlluniwyd i herio canfyddiadau cyffredin am fathemateg. Trwy weithgareddau datrys problemau yn y byd go iawn a thrafodaethau diddorol, bydd cyfranogwyr yn darganfod sut mae mathemateg yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd bob dydd a meysydd amrywiol. Gellir ei addasu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran ac mae ar gael wyneb yn wyneb ac ar-lein, bydd y gweithdy hwn yn argyhoeddi hyd yn oed y rhai mwyaf amheus nad pwnc yn unig yw mathemateg, ond sgil bywyd hanfodol ar gyfer y dyfodol!

## Sut mae addysg yn meithrin cysylltiad ystyrlon â lle – Dr Rhodri Evans

CY EN MP Rh

Byddwn yn ystyried sut mae ysgolion Cymru wedi brwydro i integreiddio treftadaeth, diwylliant a hunaniaeth leol yn y cwricwlwm i feithrin ymdeimlad o berthyn a chysylltiad, a sut maen nhw'n parhau i wneud hynny heddiw. Byddwn hefyd yn meddwl sut y gallwn edrych ar addysg sy'n canolbwyntio ar le heddiw fel ffordd o wella dealltwriaeth myfyrwyr o'u cymunedau a sut mae'r edafedd hyn yn cysylltu ledled Cymru a'r byd. Perffaith ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn addysg, diwylliant, a rôl lle wrth lunio pwy ydyn ni..

**Allwedd:**

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

## Developing Critical AI Literacy – Dr Stephen Atherton and Panna Karlinger

EN MP Rh

Darganfyddwch fyd deallusrwydd artiffisial yn y gweithdy Datblygu Llythrennedd DA Beirniadol, sef gweithdy rhyngweithiol sy'n canolbwyntio ar bwyso a mesur offer DA cynhyrchiol a deall eu heffaith. Trwy gyfrwng gweithgareddau ymarferol yn ymwneud â chynhyrchu delweddau DA, bydd cyfranogwyr yn dysgu sut mae DA yn gweithio a sut i werthuso eu hallbynnau, ac yna ceir trafodaeth fyfyriol am fuddion DA Cynhyrchiol, a'r risgiau posibl. Wedi'i deilwra ar gyfer gwahanol grwpiau oedran ac yn gallu cael ei addasu ar gyfer lleoliadau wyneb yn wyneb ac ar-lein, mae'r gweithdy hwn yn annog meddwl beirniadol am ddefnydd moesegol o DA, ei ddylanwad ar gymdeithas, a sut i gyfarwyddo â'i heriau. Perffaith ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd digidol allweddol mewn amgylchedd diddorol sy'n ysgogi'r meddwl!

## Pa rôl y mae addysg wedi ei chwarae wrth lunio Cymru heddiw? – Dr Rhodri Evans

CY EN MP Rh

Sut mae'r hyn sy'n cael ei ddysgu mewn ysgolion wedi dylanwadu ar a llunio ein hunaniaeth genedlaethol? Bydd y gweithdy hwn sy'n seiliedig ar astudiaeth achos yn ymchwilio i'r berthynas unigryw rhwng addysg, gwleidyddiaeth a hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru, gan ystyried sut mae polisïau ac arferion addysgol wedi cyfrannu at ddatblygu ymwybyddiaeth genedlaethol. Trwy gyfrwng enghreifftiau hanesyddol, byddwn yn pwyso a mesur effaith addysg, a sut mae lle iaith, diwylliant a hanes mewn addysg ysgol yng Nghymru wedi ffurfio hunaniaeth cenedlaethau. Mae'r sesiwn ddiddorol hon sy'n ysgogi'r meddwl yn ddelfrydol ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn addysg, hanes, a chroestoriadau diwylliant a gwleidyddiaeth a sut yr ydym yn deall ein lle yn y byd.

## Addysg neu Arian? Plant, eu hawliau a'u gwaith – Prysor Mason Davies

CY EN MP Rh

A ddylai plant fynd i'r ysgol? A ddylent gael eu hatal rhag ennill incwm. Mae'r gweithdy hwn sy'n seiliedig ar astudiaethau achos yn cyflwyno Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i ofynion ar gyfer addysg ac yn rhoi cyfle i chi ystyried cymhwyso'r Confensiwn mewn cyd-destunau byd-eang go iawn. Mae hwn yn weithgaredd sy'n ysgogi'r meddwl ac yn heriol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn anawsterau cymdeithasol, addysg a realiti plentyndod.





Yr Ysgol Addysg,
Prifysgol Aberystwyth,
Penbryn 5,
Campws Penglais,
Aberystwyth, SY23 3UX

+44 (0) 1970 62 2103
add-ed@aber.ac.uk



Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan yr Adran Farchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth 2025.

117358-01.25
Credyd delweddaeth: freepik.com/stories